Library of the
PACIFIC UNITARIAN SCHOOL
FOR THE MINISTRY
Berkeley, California

Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 11. Rhif 7.] GORPHENAF, 1911. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Ar yr Olwyn. R.J.J.
Adgofion am Ddiwygiad 1904-5 yn Nhrecynon.
Parcwyson.
Ymweliad a Hungary.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.
Ymsom y Myfyriwr.
Arholiad yr Ysgol Sul.
Y Beibl Cymraeg
Cymanfa Gerddorol Ceredigion.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J. L., Bersham; E. J., Cwmbwch; Mrs. J., Bettws; Parch. E. D. P. E., Bury; E. E., Pencader; H. J., Nantymoel; G. J., Castell Pencareg; J. D., Llwynyrheol; J. R. T., Pontshan; Parch. T. J. J., Hinckley; D. D., Gorseinon; J. P., St. Clears; T. J. J., Bangor; W. S. J., Rhydychain; Miss L., Dowlais; J. J. W., Trebanos; D. J., Llewele; E. H., Dihewyd; D. D., Gwardafolog; T. T., Rock Mill; J. T., Evelench; D. J., Tydwgi; Miss D., Llwynifan Cottage; E. T., Llangeitho; L. S. J., Cefncoed; E. L., Bedlinog; J. R. E., Hull; D. D., Felinfach; J. E., Stratford; Parch. S. E. B., Crumlin; J. D., Hackney Road; Parch. J. Ll. J., Chicago; Miss J., Riverside; D. T., Prengwyn; R. D. D., Mardy; H. W. H., Merthyr; Mrs. R., Ysguborfawr; Mrs. E., Tregaron; Miss J., Tregaron; Dr. T. E., Hwlffordd; D. J. G., Ferndale; J. D., Llanwnen.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch fr gelyn yma i wneud y faith golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 1od. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEETHUEWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1911. [CYF. XI. RHIF 7.

AR EDYN FFYDD.

"Dros brydnawn yr erys wylofain, ac erbyn y bore y bydd gorfoledd."
—Psalm 30: 5.

Ar brydiau daw tywyllwch fel o'r hwyr
Gan suddo'r enaid mewn rhyw hoffus gofion;
Fel pan ddiflana'r gwawl o'r nef yn llwyr,
Fel pan ddyfnha tywyllwch y cysgodion.

O'r diwedd seinia myrdd o leisiau cu,
Fel pan mae'r tonau ar y traeth yn tori,
Fel pan mae'r wawr yn deffro adar lu
Ar ol y nos i orfoleddus ganu.

Ar brydiau daw rhyw lais o'r dyddiau gynt,
Ar awel ola'r hwyr yn cael ei gludo,
Ddwed wrth y teithydd blin sydd ar ei hynt,
"Hir ydyw'r daith, ond buan iawn aiff heibio."

A daw o'r diwedd lais llawenydd byw,
A llais yr Arglwydd fydd, ar wawr y borau,
Yn dweyd, "Fe dderfydd tristwch o bob rhyw,
A'r Arglwydd a sych ymaith yr holl ddagrau."

DIOLCH iti, O Dad, am bob moddion cysur drefni ar ein cyfer; am beri i seren gobaith lewyrchu drwy'r caddug a'r tywyllwch ordoant ddiwedd einioes; am beri i adgofion melus am rai anwyl i Ti a ninau lanw ein calonau o bryd i bryd â sirioldeb. Dyro i ni gael sugno mwy o gysur allan o'r adgofion hyn, cysur digon cryf i wasgar rhyw gymaint o gysgodion y glyn. Pâr i ni gadw ein meddyliau yn sefydlog ar y gobaith wyt wedi roddi i ni am ddyfodol gwell, am dy adnabod Di yn well, ac am ail gyfarfod a'r rhai a garem fel ni ein hunain. Dysg ni i gredu yn dy bresenoldeb, ac yn dy barodrwydd bob amser i wrandaw ar ein gweddiau. Amen.

NODION Y MIS.

CYRDDAU LLUNDAIN—Gallwn feddwl mai adeg ddedwydd yn hanes yr Iuddewon oedd adeg tyru y llwythau o bob cyfeiriad i fyny i Jerusalem amser y Pasg. Nid anhebyg yw adeg y Sulgwyn i weinidogion ac eraill o'r eglwysi Undodaidd pan yn cyrchu i'w gwyl fawr flynyddol yn Llundain. Gosodai'r Pasg yspryd canu yn yr Iuddew a chredwn fod rhywbeth tebyg yn cael ei gynyrchu yn mynwes yr Undodwr. Mae'n myned i gwrdd a'i frodyr a'i chwiorydd o'r un ffydd; a theimla'n galonog i "esgyn gyda'r lluoedd fry i fynydd Duw." Yn ysgwydiad llaw'r lluaws cyfeillion, yn y pregethau a'r anerchiadau, ac yn yr arolwg gyffredinol mae'n cael gweledigaeth sy'n gyru ar ffo'r teimlad o unigrwydd sy'n ei feddianu yn rhy fynych gartref, a dychwel at ei waith drachefn am y flwyddyn—yn ddyn newydd. Teimlwn yn ddiolchgar i Miss Sharpe am ei charedigrwydd yn galluogi'r Gymdeithas i anfon un cynrychiolydd i fyny bob blwyddyn. Y mae wedi gwneuthur hyny am rai blynyddau bellach.

YR ERLID AR MR. CAMPBELL—Da genym ddarllen mewn rhifyn diweddar o'r "Christian World" i'r Parch. Harold E. Brierley, mab J. B., fod yn pregethu yn y "City Temple," ac iddo ddywedyd rhai pethau gwerth sylw'r enwad. Yr oedd yn bleser ganddo fod o ryw wasanaeth i'w gyfaill Mr. Campbell. Nid oedd ganddo gyd-ymdeimlad mawr a'i dduwinyddiaeth; ond dyma'r hyn oedd am ddywedyd fod lluaws mawr a chynyddol yn credu fod Mr. Campbell yn ddyn rhy dda, yn ddyn rhy fawr, yn ddyn rhy anhepgor i'r enwad wneud hebddo. Nid yw yn dda iddo ef ei hun i fod allan ac nid yw yn dda i'r enwad ei fod allan. Credai ei fod yn dadgan teimlad nifer fawr, feallai fwyafrif gwrywod a menywod, lleyg a gweinidogol lleol yr eglwysi fod yr amser wedi dod i roi terfyn bythol ar y polisi swyddogol sydd yn gwneuthur Mr. Campbell yn altud yr enwad.

HEDDWCH.—Rhyfedd fel y mae'r syniad o heddwch wedi cydio yn nychymyg dynion y dyddiau hyn. Dyddorol yw ymholi beth yw'r gwahanol achosion sy wedi bod yn gweithio i ddwyn hyn o amgylch ac yn gwneuthur hyny *yn nick of time*. Y mae Cymdeithas Heddwch wedi bod wrthi yn ddyfal am hir amser, a phregethu heddwch yn miloedd pwlpydau ein gwlad, mor bell ag y gellid barnu i ychydig bwrpas. Cychwynwyd y meddylddrych o Gyflafareddiad er ys rhai blynyddau bellach, a sefydlwyd y Gymdeithas ardderchog yn yr Hâg er gosod y meddylddrych mewn gweithrediad; ond er i'r Gymdeithas benderfynu llawer o gwerylon, methodd rwystro y rhyfel dinystriol rhwng Rwsia a Japan, a'r rhyfel gwarthus yn Neheubarth Affrica. Edrych pethau yn obeithiol eto yn awr, ac y mae enwau'r Arlywydd Taft a Syr Edward Grey yn arogli'n hyfryd ac yn cael eu cyfrif

yn elfenau pwysig yn ffafr heddwch; ond mwy na'r oll mae'r gost enfawr a'r ddyled aruthrol sydd ar fin llethu rhai o'r teyrnasoedd yn dylanwadu yn yr un cyfeiriad; fel yr ydys yn gobeithio, er gwaethaf aeroplane a monoplane, fod geiriau'r proffwyd ar gael eu sylweddoli, pan y troir y cleddyfau yn sychau, &c.

Gorymdaith y Menywod.—Dywedir na welwyd erioed ei debyg yn Llundain nac un man arall, rhyw "ddeugain mil" o honynt gyda'u gilydd, ac yn ffurfio rheng o bum milldir o hyd, dan berffaith ddysgyblaeth ac mewn perffaith drefn. Ni welwyd erioed orymdaith o wrywod yn fwy felly. Yr oedd yno fenywod o bob oedran braidd, ac o bob gradd; hen wragedd ar derfynau'r addewid, a rhai ieuainc, cyfoethogion a phobl dlodion, rhai o fenywod enwocaf y deyrnas a chynrychiolwyr o lawer gwlad—wedi dyfod yn nghyd i'r amcan mawr i geisio cael y bleidlais i'w rhywogaeth. Dywedir gan lawer nad yw'r fenyw ddim am gael y bleidlais, dyma brawf cryf i'r gwrthwyneb. Y mae'r merched a'r gwragedd yn ddiameu wedi dioddef yn rhy hir oblegid nad yw'r bleidlais ganddynt. Y rheol broffesedig yw lle talir treth dylai fod cynrychiolaeth. Ni chaiff y menywod eu iawnderau nes cânt y bleidlais. Ni cha menyw ei thalu fel y gwryw am yr un gwaith. Yr oedd yno un yn yr orymdaith sydd wedi bod yn pleidio achos y menywod oddiar 1851. Credwn na oedir y mater yn hir bellach.

Y Geninen—Mae y cyhoeddiad hwn yn teilyngu sylw ein pobl—ein pobl ieuainc yn enwedig. Cynwysa rai o'r pethau goreu yn yr iaith. Yn y rhifyn presenol traethir ar Elfenau Mawredd Cenedl gan y Prifathraw T. F. Roberts, ac ar y Mabinogion gan Dr. Mary Williams. Truenus meddwl fod mwy o sylw yn cael ei dalu i'r Mabinogion gan bawb na chan y Cymro. Pa nifer o ddarllenwyr "Yr Ymofynydd" all ddywedyd beth ydynt. Main hytrach yw'r erthygl ar Iesu a St. Paul gan y Parch. Maurice Jones, M.A., B.D. Mae'r erthygl ar Gastell Caernarfon yn amserol iawn, ac eiddo'r Proff. Anwyl—un o gyfres—yn ddyddorol. Doniol yw Gwili yn rhoi ychydig o nodweddion pobl y Rhondda dan y penawd Pembrôc, a da yw erthygl Sarnicol ar Yspryd y Celt, a dyddorol eiddo Eleazer Roberts yn rhoi o'i hunan gofion. Ceir lluaws o bethau eraill, oll yn gwneuthur rhifyn rhagorol.

Y NYTH.

"Pa le mae nyth yr adar bach
Ddangosodd 'nhad i mi?
A phle mae wyau'r hedydd iach,"
Oedd geiriau Tommy ni.
O'r diwedd cafodd ef y nyth:
Yr wyau, hwy ni welwyd byth.

A chanai dau uchedydd fry—
"Pam syllwch ar y llawr?
Can's tori ein plisgyn wnaethom ni,
A chodi i gwrdd a'r wawr."
Yr adar bach oedd uwch ein pen
Yn canu'n ddedwydd yn y nen.

O'r Ffrancaeg.

Emile Souvestre.

AR YR OLWYN, &c.

Tro yn Llundain.

O'R braidd y credaf fod ar y darllenydd, adeg y gwyliau, gyda'r gwresfesurydd tua 70° a'r 80°, eisieu erthygl drom. Bydd yn well ganddo un ysgafn, un na fydd yn trethu gormod ar ei alluoedd meddyliol. Rhywbeth felly yn unig y gall dyn pan ar daith. Ar daith wyf finau, ac fel na fyddo cam-ddealldwriaeth, cystal dywedyd mai yn y tren wyf. Dau derfyn eithaf y daith yw Aberdar a Llundain. Wedi cael addewid am lety, daeth y ddau pen yn agos iawn at eu gilydd. Yn y pen cychwyn yr oedd llawer iawn o anog i gychwyn yn gynar; ond dan yr amgylchiadau nid oeddwn yn gallu dangos fawr arwyddion o'm brys. Pam na fuaswn yn cychwyn dydd Llun, yr oedd y gweinidog yn myned dydd Llun a buasai'n llawer gwell i minau fyned—a chymeryd pethau yn hamddenol. Nid oedd neb yn credu mewn oediad; ond cafodd y Llun fyned. Byddai'n fantais i mi fyned dydd Mawrth oedd y peth nesaf ddywedid wrthyf. Cawswn docyn am *fare and a quarter* os dychwelwn dydd Gwener. Dewch dydd Mawrth ebe cerdyn post o Lundain, a dywedai un arall o Borthcawl yr un stori. Cerddwch ebe'r plant gartref, cewch gwmni Wncwl William John. Yr oedd pawb yn meddwl fod yr hen wr yn myned yn fwy pengam bob dydd. Rhwng dau a thri dyma'r Parch. D. Jenkin Evans yn troi i fewn i Broniestyn. Yr oeddwn wedi ei fedyddio ef, yr oeddwn wedi bedyddio ei wraig. Yr oeddwn wedi ei rwymo ef a Hannah Francis John mewn glân briodas gan wneuthur y ddau yn un. Yr oeddwn wedi bedyddio'r plant henaf—ac y mae lluaws o honynt—a dyma nhw yn awr i lawr bob cam o Chester, er mwyn i mi gyflawni'r un gwasanaeth i'r ddau ieuengaf. *To christen them*—yw'r gair glywir yn gyffredin; *to baptise them*, ddywedaf finau. Y mae'r gair *christen* yn golygu mwy nag a fedraf fi wneud. Golyga symud pechod Adda, a throi un nad yw o'i enedigaeth ond pentewyn uffern, i fod yn aelod i Grist, yn blentyn i Dduw ac yn etifedd Teyrnas Nefoedd. Nid yw yn gyfleus manylu yn awr, dichon y cawn gyfleusdra at hyny eto. Galarai Mr. Evans fy mod yn colli'r cyfleusdra i wrando ar Proff. Euken yn traddodi ei anerchiad yn iaith yr Almaen. Atebais y gwnai Dr. Tudor Jones gynrychioli Cymru yn dda. Tebyg na fyddai'r araeth yn yr iaith hono o fawr budd i Mr. Evans na minau.

Wel, cadd dydd Mawrth fyned, a dyma dydd Mercher wedi dyfod. Rhaid codi yn fore, gwisgo a brecwesta a chychwyn i gwrdd a'r tren 7.50 T.V.R. Yr oedd yn rhaid i Olwen ddyfod hyd y Stesion i ofalu am ei thad. Codi'r tocyn i Paddington. Ni ddeallai Olwen pam—*codi* tocyn, "*raise* a ticket." "Why not *get* a ticket?" Pwy all ddweyd pam? Ffarwelio ag Olwen a chychwyn—gyda dieithriaid. Rhyfedd amrywiaeth y cwmni gwrddwn ni yn y trên. Yn debyg yd-

ynt yn mhob man ; ond y mae mwy o hamdden i edrych arnynt yn y tren. Wele dacw ddwy fenyw yn y cornel ar fy nghyfer—Cymraes oedd un a Gwyddeles dybiaf oedd y llall. Meddai ar lithrigrwydd tafod teilwng o'i chenedl. Yr oedd yn amlwg nad oedd ganddi ddim syniad uchel am y dyn oedd yn briod iddi. Yr oedd yn ddioglyd, yn ddiffrwyth, yn ddiystyr o'i ddyledswydd. Elai i ddyled heb feddwl dim am y dydd talu. Yr oedd yn rhaid iddo gael Gramophone—peth hollol ddiangen ; ond nid oedd wahaniaeth am hyny. Yr oedd yn rhaid ei gael, tae'r dydd talu heb ddyfod byth. Medrai hi wneud heb y pethau diangen, a gwnelai hebddynt yn absenoldeb y ceiniogau angenrheidiol.

Un o'r pethau mwyaf annymunol wrth fyned gyda'r tren, yw meddwl mor ddiystyr yw rhai dynion o hawddfyd a chysur ereill. Hunan yw'r cwbl. Pleser hunan—dyna'r unig beth gwerth ei ystyried. Dyma ddau ddyn ieuanc nid yn unig yn tori ar ddeddf moes, ond hefyd ar ddeddf y wlad. Er fod y compartment nesaf atom ni wedi ei ddarpar ar gyfer rhai fel hwy ; be waeth am hyny ? Rhaid iddynt hwy chwythu mwg eu dybaco lle nad oes groesaw iddynt. Diolch fod cyfle'n fuan i mi ddianc. Dyma Bontypridd, a dyma Mr. John Lewis, a dyma gerbyd i'n cludo i gapel yr Undodiaid. Yno yr oedd cwmni bychan wedi dyfod yn nghyd, a'r ddyledswydd yn aros i mi gylymu mewn undeb glân briodas

Y parch. John Park Davies, B.A., B.D., a Miss Gwenllian Hawys Jenkins.

Wedi myned trwy hyny o orchwyl, a dymuno llawenydd a llwyddiant, dedwyddwch a hir oes i'r pâr ieuanc, brysiwyd eto yn nghwmni Mr. Lewis i gwrdd a'r tren a chyrhaeddwyd Paddington ychydig wedi un o'r gloch. Ie, dyna ni yn Llundain. "Dinas fawr y priddfeini" yw desgrifiad un o honi, tra y geilw arall hi yn Babilon yr oesoedd diweddar. Fel mater o ffaith, dyma'r ddinas fwyaf boblog a welodd y byd erioed—dinas yn cynwys saith miliwn o drigolion, a'r fath drigolion ! Saeson yn benaf wrth gwrs, ond mae yma gynrychiolaeth o bob llwyth, iaith a chenedl dan y nen—ie, pobl o bedwar ban y byd. Nid rhyfedd nad oes llety cysurus i'r oll. Mae'n syndod fod yma lety i'r haner ; a mwy syndod fyth sut y maent oll yn cael bwyd. Nid oes paid ar y bwyd, a'r bwyd gore hefyd o bob math, os yn unig y gellir cael yr arian cyfartal i'r gwerth. Un o'r pethau mwyaf anhawdd ar adeg rhyfel yw trefnu'r *commissariat*, hyny yw, trefnu ar gyfer angenion corff y milwyr ; a mynych iawn y ceir achos cyfiawn i achwyn, ac i achwyn yn dost ; ond wele yma engraifft wyrthiol braidd, lle nad oes byth ddiffyg i'r geiniog gael gafael ar y geiniogwerth ! Daw'r oll wrth ddeddf. Fe ŵyr y darllenydd ystyr *supply and demand.* Y mae ar un eisieu pwys o fenyn ac ar un arall eisieu gwerthu pwys ac yn rhyfedd iawn y mae'r ddau hyn yn cael eu dwyn at eu gilydd—gormod un yn cyflenwi angen arall.

Wedi cyrhaedd Paddington a chael allan nad oedd neb wedi dyfod i gwrdd a mi, clywais y gloch oddifewn yn canu—y gloch a glywir gan bob un ryw dair neu bedair gwaith yn y dydd—ac yn galw arnaf i chwilio am y geiniogwerth. Wedi chwilio a chael yr hyn oedd angen i ddiwallu'r dyn oddifewn, rhaid oedd cychwyn eto—i Essex Hall yn awr, man cyfarfod y llwythau Undodaidd ar adeg y Sulgwyn. Wedi teimlo unigrwydd y sefyllfa grefyddol gartref lawer pryd, y mae'n galondid ac yn nerth ysprydol i'r Undodwr i gwrdd a'i frodyr yn y ffydd o bob parth o'r wlad—brodorion o'r cyfandir hefyd, o Ffrainc, o'r Almaen, yn siarad ieithoedd dieithr; a chefnderwyr o'r Amerig yn siarad Saesneg. Ond i Gymro, mi dybiaf nad oes dim yn fwy naturiol na mwy calonogol na chydiad llaw mewn llaw dau Gymro oddi cartref. Nid oes eisieu llafar yn gymaint, fe deimlir curiad y galon yn ysgwydiad y llaw, fe'i gwelir yn holl ysgogiadau'r corff ac yn neillduol gellir ei ddarllen wedi ei ysgrifenu yn amlwg iawn ar y gwynebpryd.

Wrth oedi myned i fyny hyd dydd Mercher yr oeddwn yn colli llawer o bethau da'r wythnos, colli'r *Luncheon* yn yr Holborn Restaurant am un o'r gloch, colli cyfarfod yr Ysgol Sul a phapyr y Parch. J. Tyssul Davis, B.A., ar "The Value of Nature Teaching"—Gwerth Addysg oddiwrth Natur. Clywais ganmoliaeth uchel i'r papyr hwn; cwrdd arall y caraswn fod ynddo oedd cwrdd y menywod. Y mae'r menywod yn gyflym yn dyfod i sylw fel llefarwyr cyhoeddus, a phan gaffont dipyn o hwyl llefarant gyda dylanwad mawr. Collais y gwasanaeth yn yr hwyr yn Rosslyn Hill. Yma y cyferfydd cynulleidfa fwyaf dylanwadol yr enwad yn Llundain y dyddiau hyn. Testun y bregeth oedd—Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon yw i ni (Ioan 14: 1), a'r pregethwr oedd y Parch. S. H. Mellone, M.A., D.Sc.

Nid wyf yn deall i mi golli llawer oherwydd methu clywed y Proff. Euken (seinir Oicen) bore dydd Mercher yn traddodi ei anerchiad dysgedig yn iaith yr Almaen. Ni fuaswn yn deall gair o hono; ond yr oedd yn dda genyf glywed fod yno gynulliad lluosog, ac iddynt roddi gwrandawiad astud iddo am yr awr a chwarter y bu yn llefaru. Pa un a oeddynt yn deall neu nad oeddynt, yr oedd yn unol a gofynion moes, a dim llai na'r parch dyledus i athronydd pena'r oes—*The greatest living thinker*, yn ol Dr. Horton. Y Dr. Tudor Jones fu'n foddion i'w ddwyn i'r wlad hon i draddodi ei anerchiad, a thraddodwr yr anerchiad fu'n foddion i dynu sylw y "*Times*"—*Times* mawr Llundain am y tro cyntaf erioed at y B. & F., drwy roddi colofn o adroddiad dydd Iau a cholofn o adolygiad dydd Gwener. A fyddai'n ormod i ni geisio gan y Dr.—gwyddom nad yw wedi anghofio ei Gymraeg—i anfon erthygl fechan ar fywyd ac athrylith y Proffeswr i'r YMOFYNYDD. Darllenid hi gyda phleser—yn enwedig gan rai.

Luncheon y Llywydd—y Parch. Charles Hargrove, M.A. eleni—yw un o bethau pwysicaf y cyfarfodydd hyn. Yno y clywir anerchiadau grymus gan enwogion yr enwad—ac eraill. Llefarodd y Llywydd yn gyntaf ychydig eiriau pwrpasol o longyfarchiad gwresog i'r Proffeswr Euken. Dilynwyd ef ar yr un linell gan Dr. Horton (A.), Dr. Car-

penter ac eraill. Pan gododd y Proffeswr i ateb, parodd syndod amlwg ac nid ychydig o bleser, drwy gychwyn gydag ychydig eiriau yn Saesneg. Gwelsom arwyddion o bleser cyffelyb lawer gwaith pan fyddai'r aelod seneddol wrth anerch ei etholwyr yn rhoi tipyn o Gymraeg. Yr oedd yn ddrwg ganddo na fedrai eu hanerch yn Saesneg, ond yr oedd yn ddiolchgar iddynt am eu daioni a'u caredigrwydd tuag ato. Yna trodd at iaith ei wlad ei hunan, yr iaith a ddysgodd wrth draed ei fam gartref. Melus gan bob un iaith ei fam, oddigerth ychydig o blant Dic Shon Dafydd.

Cyfarfod da oedd cyfarfod hwyr dydd Mercher, pan y cafwyd amryw anerchiadau, neu yn hytrach bapyrau gwerthfawr ar y ffydd Undodaidd. (1) "Dyledswyddau a Rhagolygon yr Ugeinfed Ganrif," gan y Llywydd; (2) "Athrawiaeth a Bywyd," gan y Parch. C. J. Street, M.A., Ll.B.; 3 "Dinasyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladwriaethol," gan Mr. H. G. Chancellor, A.S.; (4) "Undodiaeth yn Symudiad Byd-eang," gan y Parch. C. W. Wendte, D.D., Boston, U.D.A. Papyrau gwerthfawr oedd y rhai hyn, a theimlwn mai da oedd i mi fod yno.

Dydd Iau cafwyd cyfarfod busnes am 10, ac am 11.30 cawd cyfarfod i glywed dau bapyr ar "Le a gwerth y Beibl i bobl rhyddfrydig crefyddol yr oes." Yr oedd y papyrau yn werthfawr ac yn ddyddorol. Dywedwyd wrthym fod yr amser wedi dyfod pan y dylem ddarllen mwy ar y Beibl ei hunan, ac nid rhywbeth yn nghylch y Beibl, fel y gallem enill yn ol ein teimlad o'r sancteiddrwydd a'r prydferthwch a'r doethineb yn y rhai y mae'n rhagori ar bob llyfr arall. Nid oes yr un profiad o eiddo'r enaid nad ydys yn cael y mynegiad mwyaf perffaith o hono yn y Beibl. Yn mhlith llyfrau, efe yw cyfail! penaf y sawl a fynant fyw yn yr yspryd. Cyfarfod dyddorol bob amser yw'r Converzasione, math o Free and Easy, ymgomwest neu gwrdd cleber, lle y ceir cyfleusdra i siglo llaw ac i adnewyddu cyfeillgarwch ac i ffurfio cyfeillachau newyddion.

Megys ag yn y British League of Unitarian Women, y menywod sydd yn y ffrynt gyda'r "Postal Mission," a dangosant eu bod yn meddu'r cymwysderau angenrheidiol i gario eu gwaith yn y blaen. Llywyddwyd gan Mrs. Reid, Abertawe, ac ni allasai neb wneud yn well. Mrs. Reid yw Llywydd y South East Wales Society am y flwyddyn. Menyw selog dros yr achos, parod bob amser i wneud ei gore drosto. Nid pawb feallai sy'n gwybod ei bod yn ferch i hen weinidog Undodaidd. Cawn y cyfleusdra i roddi manylion pellach am ei thad rywbryd eto feallai. Cymerodd y Parch. Tudor Jones y cyfleusdra i ddweyd gair o barch uchel am gymeriad rhagorol, a'r gwasanaeth gwerthfawr wna Mrs. Reid yn yr eglwys yn Abertawe, a'r help a'r cyfarwyddyd a gafodd ef ei hunan yn nyddiau amrwd ei Undodiaeth, pan oedd newydd gefnu ar y Methodistiaid. Gan fenywod yn benaf y mae gwaith y Postal Mission yn cael ei gario yn y blaen. Mor bell ag y gwyddom nid rhyw lewyrchus iawn yw'r cangenau hyny lle mae'r gwryw yn llywyddu. Prif arwresau'r Postal Mission yw Miss Hill a Miss Tagart yn Llundain, Mrs. Reid yn Abertawe, a Mrs. John Lewis yn Mhontypridd.

Nos Wener cynaliwyd cwrdd dirwestol—cwrdd lluosog a llwyddianus yn mhob ystyr. Yr oedd y llefaru o radd uchel iawn, a chafwyd clywed yn mhlith eraill lawer, y Parch. Silvester Horne, A.S., Mr. Fred. Maddison a Dr. Wendte o Boston, yn eu man goreu. Nis gallwn beidio dweyd yn y fan hon, i'r Arlywydd Taft fod dan ofal gweinidogaethol Dr. Wendte pan yn fachgen, yn ogystal a'i dad, y Judge Taft, dyn hynod a dyn galluog iawn.

Ond gwell i mi dynu at y terfyn rhag blino amynedd y darllenydd. Bellach yr ydym wedi dychwelyd adref, yn ddiolchgar am lawer o garedigrwydd ar ran cyfeillion lu. Treuliasom wythnos yn y ddinas fawr. Talwyd ymweliad â'r Amgueddfa Brydeinig, yn benaf er mwyn cael golwg ar y Bible Exhibition; awd oddi yno i'r Royal Academy i weled prif ddarluniau'r flwyddyn; dranoeth i'r White City yn Shepherd's Bush, ein hymweliad cyntaf, a chawsom bleser mawr yno. Yr oeddym wedi clywed o'r blaen nad yn ein gwlad ni yn unig y ceir dynion mawr, dynion cywrain. Yn mhob gwlad y megir glew, a gwelsom yma ddynion yn gwneuthur pethau rhyfedd. Nid ydym yn synu at y ganmoliaeth; ac ni allwn lai na datgan ein syndod at yr arwyddion newydd hyn o'r hyn fedr dyn. Dywedir i Dafydd Ifans, Ffynon Henri, roddi bloedd o syndod pan welodd y tren gyntaf yn Nghaerfyrddin. Nid ydym yn rhyfeddu, ond y mae'r byd wedi myned rhagddo wedi hyny, ac ni wyddom ni fawr eto beth fydd dyfais wedi ei sicrhau cyn diwedd y ganrif. Cyn dychwelyd i'r llety darfu i Goronwy a minau droi i fewn i weled y Cinematograph—y tro cyntaf erioed i mi, a'r oll allaf ddyweyd yw rhyfedd! rhyfedd!! rhyfedd!!!

R.J.J.

RHAGOM DRWY YR OESAU.

Ton—St. Gertrude.

Rhagom fel ein tadau
Yn orymdaith gref,—
Rhagom hwyliwn ninau
Wrth alwadau'r Nef:
Amryw yn ein doniau,
Mewn calonau'n un;
Amryw ein gwasanaeth,—
Un ein gwobrwy gun.
Byth yn mlaen, &c.

Lledu wna y deyrnas,
Teyrnas wen y dydd;
Trosti y llafuriwn
Nes yn ffaith daw'n ffydd.
Tystiodd y proffwydi
A'r merthyrol lu—
Canodd beirdd am dani,
Gwaedodd myrdd o'i thu.
Byth yn mlaen, &c.

Nid ein heiddo'n hunain
Yw ein llwydd na'n coll;
Yn mhob mêth neu lwyddiant,
Methwn, llwyddwn oll.
Bawb yn rhwym yn nghariad
Awdwr doeth ein bod,
Awn yn mlaen yn unol
At y ddisglaer nod.
Byth ymlaen, &c.

F. L. Hosmer. (Cyf. Cledlyn.)

ADGOFION AM DDIWYGIAD 1904-05 YN NHRECYNON.

III.—Cedrwydden Arall.

Geilw ei hynodrwydd am oreu yr awen i'w darlunio ; a gedy'r bardd i'r gwyddon a'r athronydd ddigon o gynysgaeth yn weddill wed'yn i'w hastudiaeth. Cedrwydden wthiodd ei gwraidd yn ddwfn i ddaear fras a diwrtaith crefydd a duwinyddiaeth y gorphenol ydyw hon. Ymgryma ei chydgoed yn wylaidd a theyrngar gerbron ei mawrhydi. Mae ganddi ystori hanes a phrofiad gwerth ei wrando i adrodd iddynt hwy : Geill hi fod yn athrawes i'r penaf o honynt. Hana hi o rywogaeth arbenig o gedrwydd—o fynydd Seion. Ymsaetha ei chanolfrig fel tŵr gwyrdd i'r uchelion glas. Geill ei changhenau noddi gallt a'i brigau gysgodi gwig. Un o flaenoriaid gwreiddiolaf, ac un o golofnau cadarnaf Calfiniaeth ydyw y Gedrwydden hon. Mae aelodau'r "Hen Gorph"—sef y Gymanfa, y Cwrdd Misol a'r Gymdeithasfa, &c., megis adar y nefoedd ystalwm wedi dyfod i nythu yn nghysgod a swn ei ddoniau. Geill ei archiad ddwyfoli llef y proffwydi, a'i ŵg i fudanu cân yr offeiriaid. Oracl ydyw ar gwestiwn buddianau'r enwad—a Sina ar bwnc Dysgyblaeth ei gyfundeb. Gwel falldod y Cwrdd Chwarter yn gynt nag un dyn : a chawod o fellt ydyw ei gerydd ar wywdra crefyddol yr eglwysi : ond gras ydyw'r gwaddod sydd yn ngwaelod phiol ei digofaint.

Cyn dechreu ceisio desgrifio ei dân yn cyneu : a'i fflam yn llosgi yn nyddiau'r Deffroad, gwell fydd taflu rhai o friwsion ei ddawn, ac ambell dywysen o'i arabedd yn nghyntaf ger bron y darllenydd. Wrth hyny fe'i hadnebydd yn well.

Ddarllenydd hynaws ynte, os am bortread o hono ar ei uchelfan tyr'd am dro genym i

Odfa "Derbyn Blaenoriaid"

yn Nhrealaw, Ebrill y 3ydd, 1907 :—Dacw'r gwrthddrych ar ei draed, a thŵr o flaenoriaid newyddion o'i flaen i dderbyn ei farn am y swydd a'i gyngor am eu gwaith fel y canlyn :—"Wel, dyma fi wedi'm galw i'ch cynghori ch'i. 'Dwn i ddim faint o gymhwysder sydd genyf i wneud. Ychydig o ddysg sydd gen' i' : fues i ddim yn hir iawn mewn unrhyw ysgol ond

Ysgol Brofiad.

'Rwy' wedi bod yn hir yn hono, ac wedi dysgu llawer : a thipyn o ffrwyth hono gewch ch'i 'nawr. Rych ch'i wedi cydio mewn gwaith mawr. Gwaith caled, ond gwaith da, ac anrhydeddus iawn—*bod yn flaenoriaid.* Wel, y cyngor cyntaf rof fi i ch'i yw :—

"1.—*Blaenorwch.* — Byddwch yn deilwng o'r enw

Blaenor.

Nid enw o flaenor—nid rhyw *sham* o o beth. Ro'dd yn dda gen i glywed ambell un o honoch ch'i yn dweyd eich bod yn falch o'ch swydd. 'R oeddwn inau yn falch pan etholwyd finau yn agos i 50 mlynedd yn ol—ac rwy'n falch o hyd. Balch, otw, yn fwy balch na phe basech chi yn rhoi 'stad Lord Bute i gyd i fi. Diolch i bawb sydd wedi *noti* i, a thrwy gymorth Duw 'rwyn penderfynu cadw'n nillad yn lân a'r *harness* yn loew. Byddwch yn deilwng o'ch swydd, frodyr. Mae yma '*back*' wedi eu hethol nad ydynt yn werth eu *halan.* Mae'r Brenin Mawr wedi myn'd ag ambell un 'roeddwn i

yn ei 'nabod adra' : mae yma *lot* ar ol eto isha eu symud. Mae nhw yn *scotchio'r* cerbyd yn y ffrynt, yn lle ei yru yn mlaen. Mae'r gwersyll yn cael ei gadw i aros o'u hachos nhw. Os yn flaenoriaid—*blaenorwch* mewn gwaith, a haelioni, a phobpeth arall.

"2. — *Dioddefgarwch.* — Mae'r gwaith yma yn un y bydd yn rhaid i ch'i ddioddef llawer gydag e', a gwaith caled iawn yw diodde'. 'R oedd yn well gan Petr gynt am *spell* hir wneud pobpeth na diodde'. Ac fe fydd rhaid i chwi ddiodde' oddiwrth hen ddynion bach gwael iawn. 'Dwy' i ddim yn *shino* ffordd hyn. 'Rwy'n digio yn aml. Waeth i mi ddweyd y gwir, un *common* iawn wy' i am ddiodde'. Mi golla nhemper yn *waff* iawn, ac *weithe* fe fydda yn teimlo yn gâs iawn ; ond dwy' i ddim yn cadw digofaint. Chysgais i erioed yn ddig wrth neb. Fe fydd y digofaint wedi myn'd cyn codi o ymyl erchwyn y gwely. Dyma le braf i gladdu digofaint ! Fe fydd rhaid i ch'ithau ddiodde'. Gwyliwch gadw digofaint. Cofiwch am yr Hwn ddioddefodd y Groes er ein mwyn ni.

"3.—*Perchwch bawb.* — Perchwch y cyfundeb 'rych yn swyddogion o hono. 'D oes gen i ddim yn fach i ddweyd am un enwad arall ; ond yn ol fy marn i, yr Hen Gorph yw'r gora o ddigon. Perchwch bawb, a pherchwch yr arweinwyr. Dalla i ddim goddef neb yn eu rhedeg nhw i lawr. Fydda i yn amal yn anghytuno â nhw, ac yn meddwl fy mod i yn gallwch na nhw—ac fe fydda *witha* hefyd—ond rwy' bob amser yn rhoi i mewn. A pherchwch eich Gweinidog—ie, gofalwch—a pharchwch ef beth bynag fydd ei *size* e'—tasa fe ddim ond *Tom-tit.* Cofiwch yr ymadrodd—"Gweision y Duw Goruchaf"! Byddwch felly yn ddynion parchus—nid yn ddynion bach *mean* ond yn foneddigions. Beth wna rhyw *sparbils* fyn'd i ffeindio bai ar ddynion gora'n cyfundeb ni? Mae *lot* o honom ni yn rhy debyg i'r teilwriaid yn mesur dynion ereill ; ond dim yn mesur eu hunain.

"4.—*Byddwch yn ostyngedig.* — Peidiwch chwyddo, a llydanu, a meddwl eich bod chi yn rhywrai anghyffredin. Y mae yn anodd trafod rhai ar ol eu doti yn y Sêt Fawr. Cofiwch mai nid *gaffars* ydych. Nid wedi ein galw i gaffro 'ryn ni ; ond i weithio. A gofalwch wneud eich gwaith eich hunain ; ac nid busnesa'n ngwaith dynion pobl ereill. Y mae digon o waith yn yr Eglwys i bawb. A byddwch yn ddigon ystwyth i wneud y gwaith lleiaf. Ystyriwch yr helygen. Dyna batrwn o ystwythder i chi. Mae ambell un os na chaiff e' fod yn y ffront o hyd—wnaiff e' ddim. Peidiwch bod yn rhy fawr, os bydd isha, i garco'r drws. 'R oedd un mwy na ni yn foddlon gwneud. 'Dewiswn gadw drws,' &c. Brenin yn carco'r drws. A beth feddyliech ch'i am Arglwydd pawb mewn agwedd gwas?

"5.—*Byddwch yn ddynion.* — Yn ddynion da a duwiol—yn ddynion ag asgwrn cefen. Mae'n gâs gen i y dynion llipa yma, sydd yn plygu fel brwyn gyda phob awel. A byddwch yn *loyal* i'r Efengyl—i'r hen Efengyl—yr unig Efengyl—yr Efengyl sydd yn *suitio* pechadur. Pechadur wyf fi, a phechadur mawr, *mawr.* O, ie, dyma ydym ni i gyd. 'Does neb yn eithriad ar y pwnc hyn. 'Rwy'n bechadur otw—ond yn bechadur na ddemnir byth—mae'r cortyn wedi ei symud—mae'r *line* wedi ei chroesi. Bendigedig fyddo'i enw—mi wn am fan i guddio mhen : ac mi fydda wedi myn'd adre yn union. Bydda. Rwy'n myn'd, ac mi wn mai i'r nefoedd rwy'n myn'd. Fe fyddaf yno mor sicr a bod fy Nhad Nefol yno. Fe gyflwynodd nhad a mam fi i'r Iesu 73 o flynyddoedd yn ol. Mae nhw wedi cyrhaedd er ys blynyddoedd, ac fe fydda inau gyda nhw yn union. Mae'r *diafol* yn ceisio'm rhwystro i, ond diolch mae'r Gwr ar y ddeheulaw yn fistar arno, ac yn nerth hwnw fe ddof i'r lan ar ei waethaf. Caf—*caf* godi mhen o dan ei draed, a bloeddio concwest—concwest yn y GWAED. Diolch, diolch byth. Yn wir, rwy'n edrych yn mlaen

ambell dro, ac yn meddwl cael cwrdd a rhai o'r hen *foys*—nhad a nhadcu, ac ereill. Fe fyddwn yn *lot* go gynes—cwrdd ar ben y daith—a dyma'n gwaith—

"Seinio buddugoliaeth am iachawdwriaeth lawn
Heb ofni colli'r frwydr, na boreu na phrydnawn."

6.—*Darllenwch lawer ar eich Beibl.*—'Roswch ar ben yr adnodau, fel y gwna y wenynen uwchben y blodyn, ac nid fel y *pilipala* (iar fach yr haf). Y mae mêl yn yr adnodau, oes, oes dil mêl yn ugeiniau o honynt. Mae nhw yn son am ryw *dogmat-ism* a rhyw *immanence* a *transcendence* nawr; ond beth sydd yn y son am y rhai'n i fenaid euog:—'Wele Oen Duw yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd.' Dyna adnod i ch'i fechgyn—a thipyn o swn gras yn gwneud *stroke* gyda hi. 'Rwy i yn lecio y llun hwnw o'r ferch yn y môr, a'r tonau yn tori ar ei thraws, ond hi yn SAFF wrth afaelyd yn y Groes. 'Rwy inau wedi teimlo *splash* y tonau, tonau o euogrwydd cydwybod, nes ofni ambell dro mod i yn boddi, ond diolch rwy'n cael golwg a gafael ar y Groes. Ni foddaf byth mae Duw o'm tu.

"7.—*Byddwch yn haelionus.*—Peidiwch bod yn debyg i Alexander y gôf copr, Demas a Simon Magus. Beth yw ein rhoddion bach ni o'u cymharu a'u rodd fawr Ef? Mae pack o honom yn rhy *stingy* i roi haner coron y flwyddyn at yr achos. Fe ddylai fod c'wilydd ar ein gwynebau ni. Nid aiff Mr. Caru Arian a Mr. Cadw-y-Cwbl byth i'r nefoedd. 'Does dim cybyddion i d'wllu'r lle byth—eu *impedents* sydd yn eu cymhell i'r Eglwys hefyd. Cyfrenwch yn dda at yr achos frodyr.

"8.—*Byddwch yn heddychol ac yn weddïgar.*—'Ryn ni yn rhy *fond* o lawar o ddod a phob *sort* o betha i'r cyfarfod misol. Rhaid i ni *stoppo* nhw cyn dod i'r fan hyn. Rhaid deall y *signs*; a phan y byddwn ni yn meddwl y bydd perygl i storm godi, rhaid rhoi *damper* arno mewn pryd. Yn lle hyny, tra fyddwn ni yn ffraeo â'n gilydd, fe fydd yr Anaciaid sydd yn y wlad yn lladrata'n trysorau ni. Gweddiwch lawer—ie bob dydd—ac amryw weithiau yn y dydd. Dyma *Fine Art* y galon dduwiol. Mi glywes ddynion weithe yn bostio ac yn dangos y cyrn oedd ar eu dwylo—ond welais i neb yn dangos y cyrn oedd ar ei bengliniau. Hanes y gwaith sydd ar y dwylo—ond hanes gweddio sydd ar y gliniau. Dyna i chwi weddiwyr oedd yr hen *stock*. Yr hen Flaenoriaid Methodistaidd. Tynai eu gweddiau y nefoedd i lawr mewn cwrdd gweddi, a gwnai eu eu profiadau yn y 'seiat' yr un fath. Gwnewch eich gweddiau yn allweddau i agor *safes* trysorau gras, frodyr, ac i *ddemandio* adnoddau'r ysprydol a'r tragwyddol yma ar y ddaear. Gwneled Duw chwi trwy ei yspryd a'i ras yn addurniadau yn eich swyddau, ac yn ddefnyddiol yn eich cylchoedd."*

Dyna engraifft o ddawn y gwr fu'n eirias yn Niwygiadau 1859 a 1904–5. Ei hanes yn fyr yn Niwygiad 1904–5 fydd genym yn yr ysgrif nesaf.

Aberdar. PARCWYSON.

* Gwel y *Deonglwr*, Meh. 1907.

[Diau na fydd ein darllenwyr yn cytuno a'r oll yn yr uchod; gosodir hi i fewn am y cynwys awgrymiadau y buasai yn dda eu cario allan yn mhob man. GOL.].

YMWELIAD A HUNGARY.

Gan y Parch. E. Ceredig Jones, M.A.

(PARHAD).

Mae Hungary yn allu gwleidyddol ar wahan oddiwrth Awstria, a chynhwysa hefyd Dywysogaeth Transylvania, Fiume ar yr Adriatic, a Croâtia a Slavonia i'r De. Yn awr mae y boblogaeth oddeutu deunaw miliwn, o'r rhai nid yw y Magyariaid yn gwneud i fyny yr haner, ond dim pell o hyny. Gwneir y mwyafrif i fyny o Ellmynwyr, Wallackiaid, Slovackiaid, Croatiaid, Serfiaid, a chenhedloedd bychain ereill. Magyar yw y brif iaith; ond siarada y bobl ddiwylliedig Ellmynaeg — iaith Awstria — pan na allant wneud hebddi. Siarada y gweddill o'r trigolion Magyar fel y gwna y Cymro a'r Ysgotiaid o'r ucheldiroedd siarad Saesnaeg, yn Lloegr. Pwy yw y Magyariaid? gofynwch. I bwy gangen o'r hil ddynol y perthynant?

Yn yr hen amser pan oedd y wlad o dan iau Rhufain, gelwid hi yn Pannonia, a'r trigolion yn Daciaid. Yr oeddynt yn bobl tra gwrol fel y profir gan y ffaith iddi gymeryd Trajan y Cadlywydd Rhufeinig bymtheg mlynedd i'w darostwng, yr hyn a wnaed yn y flwyddyn 103 A.D. Cymerodd y fuddugoliaeth hon o eiddo y Rhufeiniaid le ar wastadedd Hatseg gerllaw Dèva â'r hwn le y talasom ymweliad. Yr oedd yr ymladdfa mor ofnadwy fel nad oedd gan y Rhufeiniaid ddigon o lïan i drin eu clwyfau. Rhoddir hanes dyddorol o'r frwydr ar golofn Trajan yn Rhufain; a gellir profi oddiwrth y gwynebau ar y golofn fod y trigolion eto yn dwyn rhai o nodweddion y Daciaid. Mae yn debyg mai Celtiaid fel ni'r Cymry oedd y Daciaid. Yna daeth yr Huniaid o Asia yn y bumed ganrif o dan arweiniad eu brenin Attila yr hwn a elwid yn "Fflangell Duw." Ysgubodd Ewrop gyda'i fyddin o haner miliwn gan wasgar difrod a marwolaeth b'le bynag yr äi. Yn Eglwys St. Ursula yn Cologne yn Germany, â'r hon yr ymwelais wrth ddychwelyd o'r daith hon, arddangosir hyd heddyw esgyrn unfil-ar-ddeg o wyryfon, bechgyn a merched—y rhai, fe ddywedir i Attila osod i farwolaeth mewn modd creulon ar ei ymweliad a'r lle yn y flwyddyn 451 A.D. Yn ol traddodiad yr oedd y Cristionogion ieuainc hyn wedi ymadael â Phrydain er mwyn dianc oddiwrth erledigaeth y Saeson ag oeddynt newydd ddyfod i'r ynys, a'r rhai oeddynt eto yn baganiaid. Mae Eglwys Llangwyryfon yn Sir Aberteifi wedi cael ei henwi ar ol y merthyron ieuainc hyn. Yn ffodus i Ewrop bu Attila, y gelyn ofnadwy hwn i ddynoliaeth farw yn y flwyddyn 451 A.D., yn nghanol ei wledd briodasol. Ar ol ei farwolaeth bu ymrafael rhwng ei ddau fab yn nghylch yr orsedd, ac am yspaid ymsefydlodd yr un buddugol gyda'i barti mewn ystad o lonyddwch. I raddau mwy neu lai mabwysiadwyd ganddynt elfenau gwareiddiad ag oedd y Rhufeiniaid wedi ledaenu yn mhlith y Daciaid, ond parhaodd y rhan fwyaf o honynt yn baganiaid. Rhoddasant eu henw i'r wlad yr hwn a erys hyd heddyw—*Hun*gary, gwlad yr Huniaid.

Yn y flwyddyn 896 daeth y Magyariaid o ucheldiroedd Asia o dan eu llywydd enwog Arpàd. Yr oeddynt yn bobl olygus a gwrol fel y cafodd y rhan fwyaf o genedloedd Ewrop brofi er eu cost. Pan oeddynt wedi ymsefydlu yn Hungary, yn ol arferiad yr amseroedd dechreuasant ymosod ar diriogaethau ereill yma a thraw;

ac fel y tair mil o wyr oedd gan General Gordon yn India gellid eu galw "y fyddin fyth-fuddugoliaethus."

Am dros gan' mlynedd arweiniasant fywyd tra aflonydd, ond o dan ei brenin Stephan cofleidiasant Gristionogaeth a gwareiddiad Ewrop. Hyd heddyw ä llywodraeth Hungary o dan yr enw "Brenhiniaeth St. Stephan," a choronir y brenhinoedd â choron St. Stephan. O amser Arpad a'i olynydd Stephan mae y Magyariaid wedi cael y flaenoriaeth yn Hungary. Mae y wlad wedi bod yn fynych rhwng dau dân—yn cael eu goresgyn gan y Tyrciaid ar un llaw, ac yn cael ei blino gan ei chymydogion Ewropaidd ar y llaw arall. Yn y flwyddyn 1526 cysylltwyd y wlad ag Awstria, ac ar ol llawer ymdrechfa galed o blaid rhyddid gwladol a chrefyddol mae y cysylltiad hwn, mewn ffurf ddiwygiedig, yn parhau hyd heddyw. Yn 1867 sicrhaodd Hungary Hunan Lywodraeth i raddau mawr. Yn awr yr unig gysylltiad rhwng y ddwy wlad ydyw yr hyn a elwir *Imperial Federation*—Cyfundeb Ymerodrol. Ymerawdwr Awstria yw Brenin Hungary, yr hwn a breswylia yn achlysurol yn y palas brenhinol hardd yn Buda Pest.

Mae y fyddin eto yn aros o dan lywyddiaeth ymerodrol. Byddin Awstriaidd-Hungaraidd ydyw. Mewn pob ystyr arall mae y wlad o dan Hunan Lywodraeth. Mae Tŷ y Cyffredin yn gymysgedig o 413 o gynrycbiolwyr o Hungary a 40 o Croatia a Slavonia. Mae hefyd "Dŷ" arall a elwir "Tŷ y Mawrion"—"House of Magnates," yr hwn sydd mewn rhan yn Etifeddol ac mewn rhan yn Etholiadol. Er mwyn trin materion perthynol i'r ddwy wlad, dewisir triugain o gynrychiolwyr o'r naill wlad—Awstria a Hungary—deugain o Dŷ y Cyffredin ac ugain o Dŷ y Mawrion; ac ymgyfarfyddant ar 'nail yn Vienna a Buda Pesth. Mewn perthynas i ansawdd y wlad a natur ei harwynebedd gellid dweyd nad oes un diriogaeth yn Ewrop yn ol ei maintioli yn arddangos cymaint o amrywiaeth. Mae ynddi dair cadwyn o fynyddoedd y rhai ydynt fawreddog tuhwnt i bob desgrifiad—mynyddoedd Carpathia, yn uchel yn mhlith y rhai mae aneirif lynoedd yn llanw pyllau fuont un amser yn fynyddoedd tanllyd. Gelwir y llynoedd yma mewn iaith farddonol yn "lygaid Hungary." Mae ganddi bedair afon ardderchog—y Danube, y Tizsa, y Drave a'r Save. Arddangosir y rhai hyn ar arfbais y wlad fel pedair llinell arian. Mae i lyn Balaton arwynebedd o 230 milltir ysgwar, ac mae ei physgod y goreu yn Ewrop. Dywedir ei bod o'r fath faintioli fel y llyncant hwyaid ar y dwr fel y llyncir gwybed gan bysgod Aeron a Theifi! Mae y wlad yn nodedig am ei ffynonau poethion i'r rhai y cyrch llawer o gleifion, megys y Füred ar lan llyn Balaton, ac ar ynys St. Margaret ar y Danube gerllaw Buda Pest.

Mae mynyddoedd Transylvannia yn gyfoethog mewn aur, arian, a mwnau ereill; hefyd mewn meini gwerthfawr, y rhai a geir yno mewn cyflawnder, yn enwedig *opals*. Gorchuddir ystlysau'r mynyddoedd â choedwigoedd henafol, yn y rhai y ceir eirth, moch gwylltion, bleiddiaid, cathau gwylltion, y lynx, ychain a geifr gwylltion a llawer o greaduriaid ereill. Hoffem weled y creaduriaid rheibus—*o bell*—ond ni chawsom y cyfle. Sylwais fod parwydydd uchel o goed wedi eu gosod o amgylch anedd-dai a ffermdai mewn parthau mynyddig er mwyn amddiffyn y trigolion a'u hanifeiliaid rhag y bwystfilod gwylltion y rhai a ddeuant allan o'u llochesau yn y gauaf.

Fel ag yr wyf wedi dywedyd yn barod, prif amcan ein hymweliad oedd bod yn bresenol yn agoriad ein coleg yn Kolozsar, ar yr wythfed o Fedi, ond caed allan, na allai y seremoni gymeryd lle ar y dyddiad hwnw, o achos rhyw fusgrellni ar ran yr adeiladydd; ond er gwneud i fyny am ein siomedigaeth darparwyd ar ein cyfer gyfarfodydd ereill llawn mor ddyddorol.

Pan gyrhaeddasom Budapest, daeth holl gynulleidfa Undodaidd y

lle i gyfarfod â ni, ac i'n croesawu yn yr orsaf—a'r fath groesaw, beiddiaf ddweyd, nad oedd neb o honom wedi gael o'r blaen. Dywedodd Miss Tagart ychydig eiriau ar ein rhan, a chafodd gymeradwyaeth fyddarol. Gwaeddai y bobl ag un llais, "Elyen, Elyen, Elyen!" a deallwn yn ddiweddarach mai hyn yw "Hip, hip, hwrê!" yn iaith yr Hungariaid. Yn yr un lle—yr orsaf—groesawyd ni hefyd gan gynrychiolwyr Cymdeithas y Carpathiaid—sefydliad cenedlaethol o ddylanwad mawr, ag sydd a changenau yn mhob rhan o Hungary a Transylvannia. Nid oes genym sefydliad cyffelyb yn y wlad hon. Gwna yr aelodau y rhai a berthynant i'r dosbarth mwyaf diwylliedig, ffurfio *excursions* yn misoedd yr Haf i leoedd o ddyddordeb neillduol. Prif amcan y Gymdeithas ydyw gwrteithio yspryd gwladgarol, ac astudio hanes, hynafiaethau a mwnau'r wlad.

Yn Buda Pest cawsom allan fod y Carpathiaid yn myned i gymeryd gofal o honom yn ystod ein harosiad yn y wlad. Gwnai Mr. Radnoti eu hysgrifenydd drefnu ein holl deithiau fel nad oedd genym yr un pryder. Yn yr holl leoedd yr ymwelsom â hwynt, cawsom roesaw fel pe baem yn frenhinoedd a brenhinesau. Perthynai ein cyfeillion newydd i bob cred. Yn wir gallaswn ddweyd ein bod wedi ein derbyn gan yr holl genedl. Gwnaed hyn fel teyrnged o gyfeillgarwch ar ran pobl Hungary, i'r wlad hon. Nid yw yr Hungariaid wedi anghofio y caredigrwydd a dderbyniodd eu ffoedigon yn Mhrydain pan oedd Awstria yn ceisio eu hamddifadu o'u rhyddid a'u breintiau fel cenedl. Ar yr adeg hon ymddangosodd nodyn yn y papyrau yn rhybuddio Prydeinwyr rhag myned i Hungary, oblegyd dywedid fod teimlad cryf yn ein herbyn. Profa hyn nad yw'r papyrau bob amser yn dyweyd y gwir. Ni oedd y parti cyntaf o Brydeinwyr o bwysigrwydd mewn rhif i ymweled a'r wlad. Nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl wedi gweled dyn na dynes o Brydain erioed o'r blaen. Deuai llawer i'n gweled o gywreinrwydd, fel y gwnai pobl Ceredigion pe bai Llama Thibet yn myned ar daith drwy eu Sir.

Felly gwnaeth yr Hungariaid ddatgan eu diolchgarwch i Brydain mewn ffurf sylweddol am y tro cyntaf yn eu lletygarwch diderfyn i ni. Daethai hyd y nod rai o'u pendefigion i mewn i'n trên er talu eu parch i ni; yn mhlith pa rai yr oedd y Baron Jozsica yr awdwr enwog. Ymddangosodd ei lyfr ar "Attila" mewn cyfieithiad Saesonaeg ychydig flynyddau yn ol. Ni fuom yn hir yn y wlad cyn i ni deimlo tipyn o anhawsder mewn perthynas i'r iaith. Dim ond ychydig iawn o'r Hungariaid fedrent siarad Saesonaeg—dim ond y rhai oeddynt wedi derbyn eu haddysg yn y wlad hon. Meddyliwch am foneddiges Saesnig heb hyd y nod wybodaeth elfenol o *German* yn eistedd wrth y bwrdd rhwng dau foneddwr Hungaraidd y rhai oeddynt yn awyddus i wneud pob peth yn ddymunol iddi. Byddai y fath frawddeg fechan a "Jo napol, kedves barotóm"—"Dydd da i chwi, fy nghyfaill," yn ddefnyddiol iawn ar y fath achlysur. O dan yr amgylchiadau a nodais ni allai fod llawer o hyawdledd ymgomiadol. Yn ystod ein teithiau bu ein profiad felly lawer gwaith. Ceisiai rhai ddeall eu gilydd drwy arwyddion—a rhyfeddodau—ond nid gyda chanlyniad hollol foddhaol mewn ystyr gymdeithasol. Yn hyn oll cawsom engraifft dra chywir o'r anhawsderau a gyfarfyddwyd wrth orphen Twr Babel. Er hyn oll yn mhresenoldeb ein cydgredinwyr, pa un a allem ymddiddan â hwynt ai peidio, teimlem yr unid ni yn nghyd gan ein ffydd—ein bod oll yn blant i'r un Tad cyffredinol.

Cyfieithid yr holl areithiau Hungaraidd i'r Saesonaeg, er ein budd ni, a'r rhai a draddodwyd genym ni i'r Magyar.

(*I'w barhau.*)

YMSON Y MYFYRIWR.

Rhaid i bob dyn, fe ddywedir, fod yn blentyn ddwywaith. Gall fod yn blentyn trwy ei oes, ond rhaid iddo fod ddwywaith o leiaf. Tymor y y plentyn yw blynyddau cyntaf bywyd. Yna, yn enwedig pan y caniateir i ddyn yrfa cymharol hir, fe ddaw adeg pan yr ymhyfryda gymdeithasu a'r ieuenctyd drachefn, a mwynhau'r llawenydd a'r digrifwch a berthynant i fywyd plant a phobl ieuainc. Dyma'r fath brofiad ddaeth i'm rhan i y dydd o'r blaen pan yr aethum gyda'r lliaws i agor reilffordd newydd

Llanbedr ac Aberaeron.

Aethum i'r gerbydres yn ngorsaf Llanbedr. Rhaid oedd dechreu yn y dechreu. Yr oedd genyf gryn dipyn o ffordd cyn cyrhaedd yr orsaf; a diau, oni bai am fy mhlentyneiddiwch, y gallwn gael gorsaf yn nes i'm tre' na hon. Ond rhaid oedd i mi gael gweled y cwbl—y cychwyn o Lanbedr, yr uniad a'r fam-reilffordd, a gorsaf-oedd Silian a Blaenplwyf, yn enwedig yr olaf. Daeth yr adeg i gychwyn. Hyd y croeswyd y ffordd ger Glandenys, yr oeddwn mewn gwlad weddol adnabyddus, gwyddwn lle'r oeddwn, beth oedd enwau'r tai a'r ffermydd, a chyfarwydd oeddwn a llawer o'r bobl ddaethent i'r orsaf i weled y tren cyntaf i Aberaeron. Ond ar ol croesi'r ffordd fawr, yr oeddwn mewn gwlad mor ddieithr i mi a phe yn nghanolbarth Affrig. Beth oedd enwau'r ty hwn a'r fferm acw? Nis gwyddwn. Ni wyddai neb o'm cyd-deithwyr ychwaith. Rhaid enwi un eithriad. Ar ol teithio yn araf am o gwmpas chwarter awr, daethum i le adnabyddus i mi o leiaf. Beth oedd enw hwn?

Blaenplwyf.

Nid oes ond eisiau ei enwi cyn dwyn i feddwl y rhan fwyaf o'n darllenwyr enw un fu'n byw yno. Ie, fu yn byw yno, ond nad yw mwyach. Beth pe bai yn fyw y diwrnod hwnw? Dychmygaf ei weled yn pwyso ar y glwyd gerllaw ei dy, gyda bastwn yn ei law, a'r wên ar ei wyneb oedd mor adnabyddus i'r rhai a'i hadwaenent. Neu, efallai y byddai, fel finau, wedi cael pwl o ieuenctyd, ac yn disgwyl y gerbydres yn yr orsaf gerllaw, i fyned gyda hi i Aberaeron. Dyna fel y byddai yn fwyaf tebygol. Ond beth dal ysgrifenu fel hyn. Yr oedd efe, o ran ei gorph o leiaf, yn gorwedd yn dawel y diwrnod hwnw yn mynwent Capelygroes. Tra'r oedd y meddyliau a'r dychmygion hyn yn llanw'm bryd, dyma'r gerbydres yn dechreu arafu. Beth oedd yn bod? Yr oedd yn agoshau at orsaf Blaenplwyf. Disgwyliem weled gorsaf teilwng o'r lle. Ond gwarchod fi! Dim ond

Ty Coed Dilun

wedi ei guddio a brethyn llaw-ban. Da oedd genyf gael y fraint o gefnu ar y lle, a throi fy wyneb yn nghyfeiriad dyffryn prydferth Aeron. Gwelais yn rhywle ein bod, yn ngorsaf Blaenplwyf, tua 600 troedfedd uwchlaw arwynebedd y mor. Yna, ar ol teithio rhyw ddwy neu dair milldir, ni fyddem lawer dros 100 troedfedd uwchlaw iddo. Beth allai ddigwydd wrth fyned tuag i lawr dros y llwybr serth? Nis gwyddwn. Ond rhaid i mi gyfaddef fod darluniau o ryw alanas-neu gilydd yn ymffurfio yn fy meddwl, rhuthro, efallai, dros y dibyn i waelod cwm Penwern. Ond yn fuan rhwystrwyd y meddyliau ofnog hyn gan yr olygfa dorodd ar fy llygaid—

Dyffryn Prydferth Aeron

yn ei ogoniant. O hyn hyd y cyrhaeddwyd i Aberaeron, tynwyd fy sylw bron yn llwyr gan yr olygfa

hon—golygfa oedd yn hollol gyfarwydd i mi ; ond ymddangosai'r cwbl mor newydd, fel na ddaeth i'm meddwl fy mod wedi ei gweled erioed o'r blaen. Yr unig wrthddrychau eraill dynasant fy sylw oedd y tyrfaoedd yn y gorsafoedd, yn Penwern, Ystrad, a'r Neuadd-ddu, yn nghyd a'r faner brydferth gyferbyn a Thynygwndwn, ar yr hon yr oedd dymuniadau calon yr hen wron o'r lle uchod wedi eu hysgrifenu mewn llythyrenau breision. Eisteddai yn fy ymyl pan yn myned heibio iddi ; efe yn wir dynodd fy sylw ati. Ac wrth wneyd hyn, ymdaenai'r wên fwyaf boddhaus dros ei wyneb patirarchaidd a welais i erioee. Wrth fyned heibio i'r Tanerdy, hefyd, nis gallwn lai na meddwl am y cyfaill Ceredig Jones oedd yno yn gorwedd ar wely cystudd er's cymaint o amser. Deffrodd y meddwl am dano ynof gydymdeimlad dwfn ag ef. Caffed adferiad buan. Dyma fi yn

ABERAERON.

Gwelais yn y papyrau dranoeth fod y reilffordd wedi ei hagor gyda seremoni rwysgfawr. Nid amheuaf hyn ; ond ni welais ddim o honi. Yn fuan yr oeddwn yn nghanol y dorf, yn cerdded yn ol a blaen, fel y mwyafrif, yn hollol ddi-amcan. Wel, di-amcan oedd y diwrnod i gyd o ran hyny. Gofynais i rai beth oedd eu neges i Aberaeron y diwrnod hwnw mwy na rhyw ddiwrnod arall yn yr un wythnos. Gallent hwythau ofyn yr un peth i minau. Yr un fyddai'r ateb. Ar ol blino cerdded fel hyn chwiliais am noddfa, a chefais ef ar lan y mor.

DYDDOROL YW'R MOR

bob amser. Gallaf eistedd am oriau ar ei fin, yn gwylied y tonau, un ar ol y llall, yn tori ar y traeth wrth fy nhraed. Y mae newydd-deb yn mhob ton. Yna, fe'm cludir gan fy nychymyg i'r pellderau ac i'r dyfnderoedd, a daw meddyliau a gofyniadau tebyg i eiddo'r ysgrifenydd cysegredig i'm meddwl, "Pwy a gauodd y mor a dorau, pan ruthrodd efe allan megis pe deuai allan o'r groth ? Pan osodais i y cwmwl yn wisg iddo, pan osodais fy ngorchymyn arno, a phan osodais drosolion a dorau, gan ddywedyd, hyd yma y deui, ac nid yn mhellach ; ac yma yr atelir dy ymchwydd di." Nid rhyfedd feddyliwn, fod yr awdwr wedi gosod y geiriau hyn yn

NGENAU'R HOLLALLUOG

Mynegant yn gywir genadwri y greadigaeth i ddyn—"Mi a wn y gelli di bob peth."

O edrych ar y mor trown fy ngolwg yn fy ngwrthol, yn nghyfeiriad y dref. Yno gwelwn olygfa wahanol. Y gwrthrychau a dynent fy sylw gyntaf oedd

ADDOLDAI Y DREF

—Eglwys a phedwar Capel. Yn nesaf attaf safai Capel y Methodistiaid. Ar un olwg, y mae yn adeilad cadarn, tebyg i'r cymeriad cryf a roddodd fodolaeth gyntaf i'r dduwinyddiaeth bregethir ynddo, sef Calfin ; ar yr olwg arall, ymddangosai yn brudd ei wisg allanol. Ydyw hyn yn ddarlun ffyddlon hefyd o natur y dduwinyddiaeth bregethir ynddo ? Y mae o leiaf yn dduwinyddiaeth deifl olwg anymunol iawn ar y berthynas rhwng Duw a dyn—ffrwyth cyflwr afiechydol awdwr y dduwinyddiaeth eto. Dywedaf hyn ar sail sylw o eiddo'r Parch. T. Charles Williams—"Pe bai Calfin wedi mwynhau gwell iechyd, ac wedi byw mewn amgylchoedd mwy heulaidd, credaf y byddai wedi rhoi i ni dduwinyddiaeth eangach a mwy rhyddfrydig." Yn nes yn ol, gwelwn addoldai'r Anibynwyr a'r Bedyddwyr, dau adeilad prydferth ; ac addoldy bychan y Wesleyaid, fel pe yn ofni codi ei ben yn nghysgod y fath adeiladau cawraidd. Yna, y tu deheuol, a'i hwyneb at y mor mawr llydan, safai yr Eglwys Sefydledig.

UN GOFYNIAD

awgrymid i'm meddwl gan yr olygfa, "A oes angen pump o addoldai mewn lle fel Aberaeron, o boblogaeth yn rhifo oddeutu mil o eneidiau?" Ond, o ran hyny, yr wyf cyn hyn wedi gweled cynifer o addoldai mewn lleoedd llawer llai eu poblogaeth nag Aberaeron. Dywedir wrthyf fod yno

RAI UNDODIAID

hefyd. Nid yw'r ffordd i Giliau yn rhy bell iddynt fynychu'r addoliad yno weithiau. Nid yn unig byddai'r daith yn lles corphorol ac ysprydol iddynt, ond hefyd trwy eu presenoldeb fe nerthent y ddeadell fechan sydd yn arfer ymgynull i'r hen fangre gysegredig hon. Gobeithiaf y gwelant yr ychydig eiriau hyn, ac y gwerthfawrogant yr awgrym. Dychwelais gyda'r gerbydres olaf, a chyrhaeddais i Lanbedr yn ddiogel. Nis gwaeth yn mha gyfeiriad yr oedd fy llwybr o hyny hyd fy nhre.

MYFYRIWR.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1911.

(PARHAD).

CAPELYFADFA. ARHOLWR—MR. D. DAVIES, Pantydefaid.

Cyfanrif—23.

Safon I—Dosparth I.—Hannah Evans, Anne Jones, Mary Evans, Hannah Jones, Hannah Margaretta Jones, Rachel Jones, Nancy Evans, Evan Griffith Jones, Johnny Davies, Alfred Jones, Johnny Harry Crabbe, John Jones, Enoch Evans, John Jones, David Jones, David James Griffiths, John Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Nancy Evans, Anne Jones, Annie Ellen Thomas, Rachel Jones, Hannah Margretta Jones, Minnie Thomas.

HEN DY CWRDD, ABERDAR. ARHOLWR—PARCH. MELCHISEDEC EVANS.

Cyfanrif.—2.

Safon II.—Dosparth I.—Margaret Jane Davies, David Williams.

GRAIG, LLANDYSSUL. ARHOLWR.—MR. EVAN TOM LEWIS, LLANDYSSUL.

Cyfanrif—8.

Safon I.—Dosparth I.—Rachel Evans, Katie Jones, Gwen Evans, Dewi Evans, Daniel Jones, Evan John Evans, Christmas Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Florence Jenkins.

LLWYNRHYDOWEN. ARHOLWR.—PARCH. T. A. THOMAS.

Cyfanrif—13.

Safon I.—Dosparth I.—Margaret Ellen Evans, Margaret Evans, Mary Evans, Nellie Boyles, Rachel Richards, Martin Luther Evans, John Griffith Williams, Evan John Jones.

Dosbarth II.—Dewi James Jones, Evan James.

Safon II.—Dosbarth I.—Annie Jane Thomas, Mary Geinor Jones, Evan Tom Lloyd.

PANTDEFAID. ARHOLWR—MR. J. R. THOMAS, C.M., PONTSHAN.

Cyfanrif—6.

Safon I.—Dosbarth I.—Rachel A. Williams, Mariah Thomas, Elizabeth Jones, Annie Davies, D. J. Evans, D. W. Thomas.

RHYDYGWIN. ARHOLWR—PARCH. R. C. JONES.

Cyfanrif—15.

Safon I.—Dosparth I.—Elizabeth Anne Evans, Dinah Jenkins, Mary Elizabeth Jones, Mary Williams, John Jenkyn Jones, Tom Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Sally Margaret Davies, Elizabeth Saunders Davies, Gwladys Saunders Davies, Lizzie Evans Jones, Jennie Jenkins, Hannah Mary Jones, David Daniel Jones, David Thomas Evans, Evan Jones.

TREBANOS. ARHOLWR.—PARCH. SIMON JONES, B.A.

Cyfanrif—18.

Safon I.—Dosparth I.—Hannah Davies, Jennie Joseph, Maggie Davies, Mary Elizabeth Helier, Johnny Bowen, David Samuel Morgan.

Dosbarth II.—Mary Annie Davies, Margaret Anne Bowen, Dinah May Thomas, Elizabeth Thomas, Daniel Davies, Tommy Bowen.

Safon II.—Dosbarth I.—Margaret Ann Thomas, Henry John William, Oscar Bowen.

Dosbarth II.—May Bevan, Mary Morgan, Rachael Ann Thomas.

Y BEIBL CYMRAEG.

(PARHAD).

Fel y sylwyd yn y rhifyn diweddaf gorchymynodd y Senedd i'r Beibl i gael ei gyfieithu i'r iaith Gymraeg erbyn dydd Gwyl Ddewi 1566. Ond ni lwyddwyd i wneyd hyny. Ni wyddis p'un a orfu i'r pum esgob dalu dirwy ai peidio.

Yn 1567 cyhoeddwyd yr oll o'r Testament Newydd, yn dwyn y teitl canlynol ar y wyneb-ddalen :—"Testament Newydd ein Arglwydd Jesu Christ. Gwedy ei dynnu, yd y gadei yn ancyfiaith air yn ei gilydd o'r Groec a'r Llatin gan newidio ffurf llythyreu y geiriae-dodi, eblaw hyny y mae pop gair a dybiwyt y vot yn andeallus ai oran llediaith y wlat ai o ancynefinder y defnydd wedi ei noti ai eglurhau ar led emyl y tu-dalen gydrychiol."

Ceir hefyd ar y wyneb-ddalen ddarlun o deyrnas y tywyllwch, ac o gylch y darlun y geiriau "Hon yw'r farnedigaeth ddyfod golauni i'r byd &c." Yn un congl ceir y ddau air "Gair Dew," ac mewn man arall y llinellau canlynol :—

"Gwerthwch a feddwch o vudd
(Llyma'r man lle mae'r modd
Ac mewn ban amgen ni bydd)
I gael y perl goel hap wedd."

Argraffwyd y Testament Newydd hwn mewn dull pedwar plyg hylaw, o 399 tudalen, a llythrennau blewog. Rhagflaenir pob llyfr gan "ymresymiad," ac ar ddechreu pob penod ceir crynodeb o'i chynwys. Ni renir y penodau o Matthew i I. Timotheus yn adnodau, ond gwneir hyny oddiyno i'r diwedd.

Er gelwir hwn yn Destament Newydd Salesbury, nid yn ddigymorth y cyflawnodd y gwaith. Cyfieithwyd Llyfr y Datguddiad gan T.H.C.M.—hyny yw, Thomas Huet, Cantor, Mynyw, a II. Timotheus, Iago Hebreaid a I. a II. Pedr gan D.R.D.M. sef Dr. Richard Davies, Esgob Mynyw neu Dy Ddewi. Cyfieithwyd yr oll o'r gweddill gan W.S., sef William Salesbury.

Argraffwyd ef yn Llunden gan Henry Denham, a dygwyd y draul gan Humphrey Toy, mam yr hwn oedd Gymraes, a thebyg mai ar ei hannogaeth hi y gwnaeth y caredigrwydd hwn a Chymru. Cyflwynwyd y Testament, "I'r Tywysog rhinweddolaf ac ardderchocaf Elizabeth," ac ysgrifenwyd llythyr rhagarweiniol iddo gan Esgob Ty Ddewi. Yn hwn ceir amddiffyniad o'r ffydd Brotestanaidd, a dywed yr Esgob fod gwybodaeth o'r Ysgrythyr yn brin iawn yng Nghymru y pryd hwnw.

O bosibl mai priodol, cyn son am gyfieithadau diweddarach, fydd rhoddi ychydig o hanes y cyfieithwyr cyntaf ac ychydig ynghylch orgraff ac iaith y Testament hwn.

William Salesbury

Ychydig o'i hanes sydd wedi ei drosglwyddo lawr i'n dyddiau ni. Mab oedd i Ffoulke Salesbury o o Gae Du, Llansannan. Dywed Dr. Gwenogvryn Evans, yr hanai'r teulu'n wreiddiol o swydd Lancaster, ac iddynt ddyfod i Ddinbych drwy ddylanwad Iarll Lincoln. Ni wyddis yn gywir pryd y daethant ond yn y bedwaredd ganrif ar ddeg daliai rhai ohonynt ychydig dir yn y sir ac erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg cyfrifid y teulu fel un o'r rhai mwyaf dylanwadol yng Ngwynedd.

Priododd Ffoulke Salesbury un o Pulestones Mon, hen deulu Cymraeg o nod, a William oedd eu pumed mab. Credir iddo gael ei eni yn 1517 a phan oddeutu deunaw oed aeth i brifysgol Rhydychen. Yr oedd yno adeg marwolaeth Erasmus ac yno y cofleidiodd Brotestaniaeth. Dygodd hyn ef i wrthdarawiad a'i dad, yr hwn oedd yn Babydd pybyr, a thebyg iddo orfod dioddef yn arianol oherwydd ei ddaliadau crefyddol. Cyn cymryd ei radd yn y brifysgol aeth William i Lunden i astudio deddfau yn Thavies' Inn, ond ni wnaeth ymarfer fel bargyfreithiwr. Arweiniwyd ef gan ei sel Brotestanaidd i gysegru ei amser i oleuo ei ei gyd-genedl. Gwnaeth apel at Harri VIII. am drwydded i gyfieithu rhanau o'r Beibl a bu yn ddiwyd iawn fel llenor. Heblaw cyfieithu y y rhan fwyaf o'r Testament Newydd cyhoeddodd lyfrau eraill yn ymdrin a'r iaith Gymraeg ac a Phabyddiaeth.

Dr. Richard Davies

Ganwyd yn 1501 yn fab i Ddafydd ap Gronw, ficer Cyffin, ger Conwy. Addysgwyd ef yng Ngoleg Newydd, Rhydychen, ac ar derfyn ei dymor yno derbyniodd gan y brenin Iorwerth VI. fywoliaethau Burnham a Maidsmarton, yn swydd Buckingham, a chanoniaeth yn Llanelwy. Collodd ei le pan esgynodd Mari i'r orsedd, a ffodd am loches i Geneva, lle y dywedir iddo ddioddef cyni mawr. Ar ol marwolaeth Mari dychwelodd i Brydain a derbyniodd gan Elisabeth y bywoliaethau ddaliasai gynt. Yn 1559 gwnaed ef yn Esgob Llanelwy a dwy flynedd yn ddiweddarach aeth i Dy Ddewi. Tra yno cynorthwyodd Salesbury i gyfieithu'r Beibl, a chyfieithodd lyfrau Joshua, Barnwyr a Ruth, ac yn ol rhai awduron, dau lyfr Samuel hefyd, ar gyfer Beibl yr Esgobion. Yr oedd yn ysgolor gwych a dywedir fod ieithwedd ei "Epistol at y Cembru" yn gampwaith. Bu farw yn 1581.

Thomas Huet

Brodor oedd o Frycheiniog ac yng

Nghaergrawnt y bu yn derbyn addysg. Aeth oddiyno yn feistr Coleg y Drindod, Pontefract ac wedi dal amryw fywoliaethau yn Maldwyn a Maesyfed, gwnaed ef yn 1560 yn gantor yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi. Bu farw yn 1591.

Arfaethai Dr. Davies a Salesbury gyfieithu'r holl Feibl i'r Gymraeg a llwyddasant i gyfieithu cryn gyfran o'r Hen Destament. Ond dywedir iddynt gweryla ynghylch sillebiaeth gair a gadawyd y gwaith heb ei orphen. Felly 'roedd sillebiaeth yn faes cynhenu yn Nghymru yn bur fore.

Y mae Cymraeg Testament Newydd Salesbury yn wallus ac anystwyth iawn. Defnyddir yn aml ffurfiau hynod ar eiriau. Tebyg na fwriedid i'r geiriau gael eu cynhanu yn ol sillebiaeth. Dylanwadodd ei iaith yn fawr ar lenyddiaeth y cyfnod a defnyddir rhai o ddyfeisiadau Salesbury hyd y dydd hwn. Canfyddai fod llawer o eiriau Cymraeg yn dod o'r Lladin. Oherwydd hyny sillebai hwy mor agos ag y gallai i'w ffurf wreiddiol. Er engraifft defnyddia *templ* am *teml*, *commun* am *eymun*, *eccles* neu *eccleis* am *eglwys*, *Dew* a *Deo* am *Duw*, &c.

Trodd *i* yn *ei*, megis *ei* fam yn lle *i* fam. Credai mai *ei* ddylssai fod oherwydd mai *eius* yw yn y Lladin. Defnyddir *ei* byth oddiar hyny, er mai *i* ddefnyddir fynychaf wrth siarad. Er bod yn gyson trodd *yn* ac *ych* yn *ein* ac *eich*, ac felly y defnyddir hwy byth.

Adeg y cyfieithwyd y Beibl 'roedd llawer o enwau priodol y Beibl wedi cymryd delw Gymreig, megis Selyf am Solomon; Moesen am Moses; Ieuan ac Ifan am Ioan. Ond defnyddiodd Salesbury y ffurfiau estronol er colled nid bychan. Cyfnewidiodd hefyd lawer o enwau heb unrhyw reswm gweladwy, e.g. *pemp* yn lle *pump* ac *anid* yn lle *onid*.

Yr oedd hefyd yn anfoddlawn iawn i arfer y Gymraeg o dreiglio llythyren gyntaf gair (*initial mutation*). Ysgrifena *vy tat* yu lle *fy nhad*, a *vy twy* yn lle *fy nhy*. Gan y defnyddir *ae* i ffurfio'r lluosog yn y Lladin defnyddia yntau *ae* yn lle *au*, e.g., pethae, rhwystrae, &c.

Yr oedd ei wybodaeth o'r iaith Gymraeg yn gyfyngedig iawn, a barn rhai awduron yw na wyddai'r iaith pan yn ieuanc. Yn aml defnyddia air Saesneg pan y gellid cael gair Cymraeg cyfarwydd, e.g. "Vy *monei* at y cyfnewidwyr," yn lle "Fy *arian*, &c.',

Er teimlo anystwythder ei Gymraeg cymharer y ddwy adnod ganlynol a'r cyfieithiad preseuol:—"Can nad cywiliddus genyf—Evagel Christ: o bleit gallu Dew yw hi er iechydwriaeth i bawp un sy' yn credu."—Rhuf. 1: 16.

"Ac yn ddywethaf oll e welspwyt geny vine hefyt vegis gan un antempic."—1 Cor. 15: 1.

Condemniodd Maurice Kyffin waith Salesbury yn y modd digamsyniol a ganlyn:—"E ddarfuessid cyfieuthu'r Testament Newydd yng-hylch yr wythfed neu'r nawfed flwyddyn o deyrnas eyn harglwyddes frenhines Elizabeth ond yr oedd cyfled llediaith a chymaint anghyfiaith yn yr ymadrodd brintiedig na alle clust gwir Gymro ddioddef monaw'n iawn." Cydoesai Kyffin ag yntau ac y mae ei Gymraeg llyfn yn tystio nad iaith y cyfnod ddefnyddid gan Salesbury. Yn ddiweddarach rhoddai Ficer Prichard yn rheswm am ddefnyddio iaith a mesur syml yng Nghanwyll y Cymry—

Am weld dwfnwaith enwog Salesbury
Gan y diddysc heb ei hoffi.

Gwallter Mechain a ddywedodd, "Pe rhoddid enw un o'r pedwar mesur ar hugain cerdd dafod ar waith William Salesbury yn llythyrenu geiriau Cymraeg—*clogyrnach* a fyddai yr enw cymhwysaf."

Ond er holl ffaeleddau iaith mae Cymru dan ddyled oesol i William Salesbury. Efe dorodd y garw. Cafodd ei wlad yn nghaddug du anwybodaeth o Air Duw: heb lusern i'w thraed na llewyrch i'w llwybrau. Gweithiodd yn ddiwyd i gyfieithu ac ysgrifenu er ei dwyn o dywyllwch i

oleuni. Y farn yn unig ddengys ddyled Cymru iddo. Rai blynydd-au'n ol codwyd cof-golofn yn Llansannan i'r enwogion cysylltiedig a'r lle hwnw. Ond er y coffha'r golofn am Dudur Aled, un o feirdd enwocaf yr unfed ganrif ar bymtheg; am Gwilym Hiraethog, lonodd aelwydydd Cymru lawer hirnos gauaf a chwedlau'r Hen Ffermwr ac a gyfoethogodd lenyddiaeth ei wlad a'i Emanuel; ac am yr athrylithgar Henry Rees, wefreiddiodd filoedd a'i hyawdledd, eto coch fydd y llwybr at y wyneb goffâ wasanaeth William Salesbury tra Cymry, Cymro a Chymraeg.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.

Dydd Llun, Mehefin 12, cynhaliodd Undodiaid Ceredigion eu huchelwyl gerddorol. Y mae y dydd hwn bellach wedi cael lle mwy pwysig yn ein bywyd crefyddol, oherwydd hon ydoedd y bedwaredd gymanfa ar bymtheg. Yn ystod y cyfnod hwn y mae gwaith pwysig wedi ei wneud, a chynydd a gwelliant amlwg wedi cymeryd lle yn nghaniadaeth y cysegr yn ein plith. Y mae y rhagleni flwyddyn ar ol blwyddyn yn cynwys hufen tônau cynulleidfaol Cymru, ac y maent yn aros yn ddefnyddiol yn ein capelau ar y Sul. Felly y gallwn ddweyd am y rhaglen eleni a llynedd. Yn Llandyssul y cynhaliwyd y gymanfa, yn nghapel eang a hardd y Bedyddwyr, drwy ganiatad caredig yr eglwys, ac amlwg ydoedd fod y dorf yn llawn werthfawrogi yr yspryd eang a rhyddfrydig gymhellodd yr eglwys i roddi eu capel at ein gwasanaeth.

Dechreuwyd cwrdd y boreu gan y Parch. E. O. Jenkins, a llywyddwyd yn effeithiol gan un o flaenoriaid yr eglwys, ac argraffydd YR YMOFYNYDD, Mr. J. D. Lewis. Yr arweinydd ydoedd Mr. George Thomas, A.C., Treorchy, a'r cyfeilyddesau oeddynt Miss Jones, Brynowen, Miss Thomas, Greengrove, a Miss Jenkins, Blaenwaunganol.

Aed drwy waith y boreu yn bur hwylus, a chanwyd yr Anthem, "Cydgenwch i'r Arglwydd" (Tom Price) yn effeithiol. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan Mr. Hefin Williams a gollyngwyd y dorf drwy weddi gan y Parch. R. C. Jones.

Yn y prydnawn dechreuwyd gan y Parch. David Evans, Cribyn, a llywyddwyd gan yr Henadur David Evans, Ffynonfair. Fel arfer cafwyd gwell hwyl ar y canu yn y prydnawn, a chanwyd y rhaglen yn lled lwyr. Cafwyd anerchiadau o gyngor ac anogaeth gan y Parchn. E. O. Jenkins a Lewis Williams. Cyflwynwyd diolchgarwch i'r brodyr yn Mhenybont am fenthyg eu capel gan y Parch. John Davies yn ei ddull tarawiadol ei hun. Yr oedd yno dorf luosog fel yr oedd y capel yn orlawn. Y mae clod nid bychan am yr holl drefniadau, &c., yn ddyledus i'r Ysgrifenydd, Mr. D. Martin Jones, Gwion Castle.

PRIODAS.

MEHEFIN 7, yn nghapel yr Undodiaid, Pontypridd, gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., gweinidog yr eglwys â Miss Gwenllian Hawys Jenkins, merch y diweddar Mr. Joseph Jenkins, gynt o Clydach Vale, a Mrs. Jenkins.

MARWOFION.

MAWRTH 30, yn 34 oed, D. Hamish Jenkins, mab Mrs. Margaret Jenkins, North Street, Penydarren. Ysgolfeistr oedd wrth ei alwedigaeth, a bu yn gwasanaethu fel y cyfryw mewn ysgolion enwog yn Weston-supermare ac Ealing. Bu ei fywyd yn un frwydr galed ag amgylchiadau anffafriol, yn ogystal a chyflwr iechyd gwanaidd ; ond trwy nerth penderfyniad, llwyddodd i'w gorchfygu, ac enill y nod osododd o'i flaen pan yn ieuanc iawn. Yr oedd, hefyd, yn ddyn ieuanc o yspryd llednais a diniwed, ac o gymeriad moesol o ansawdd uchel ; ac ar gyfrif yr elfenau hyn, enillodd iddo ei hun barch dwfn y rhai ddygwyd i gyffyrddiad agos ag ef. Claddwyd ei weddillion y Llun canlynol yn mynwent Hen Dy Cwrdd, Cefn. Gadawodd i alaru ar ei ol fam, brawd, a dwy chwaer, a'r rhai y cydymdeimlir gan gylch helaeth o adnabyddiaeth.

MAI 3, yn 83 oed, Daniel Davies, Yr Efail (Stonebridge), mwy adnabyddus fel Dan Stôn, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Capelybryn ; a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

MAI 21, yn 16 oed, Magdalen, merch John Griffiths, Bankyrhenbant, Llandyssul, gan adael tad, brawd, chwaer, a llu o berthynasau a chyfeillion mewn galar.

Mae'r tonau'n fynych, mynych,
Yn curo arna'i nawr,
A'r gwyntoedd croes yn chwythu'n
Ystormus ar y llawr.

Dyna, ni gredwn, yw teimlad y tad hwn canys dyna'r pumed plentyn ag y mae wedi golli o fewn i ychydig flynyddoedd i'w gilydd. Mae ei brofedigaethau ef a'i deulu wedi bod yn drymion ac aml a chredwn fod yna gylch helaeth o gyfeillion yn cydymdeimlo yn fawr a hwy. Bu yr eneth ieuanc hon yn gwaelu am fisoedd lawer fel ei brodyr a'i chwiorydd ag oeddynt wedi ei rhagflaenu. Arosodd yn hir ar lan yr afon cyn ei chroesi ac yna ffarweliodd i wneud y teulu draw yn fwy llawn. Os collwyd dagrau yma ar ei hol credwn fod croesaw helaeth wedi ei haros tuhwnt i'r afon. Yr oedd yn eneth ieuanc hawddgar ac o anian garedig a siriol. Wrth ei cholli hi collodd Ysgol Sul y Llwyn un o'i ffyddloniaid ieuainc. Gobeithio y câ y tad a'i deulu help y nef i gario eu croes ac y bydd eu gobaith am ail gyfarfod yn y trigfanau dedwydd yn anogaeth iddynt i sychu eu dagrau'n raddol. Claddwydd y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. Arthur Thomas.

MAI 26, yn 74 oed, Thomas Jones, Bank Hall, Llanbedr, gynt o Llech-

wedd, Llanwenog, ar ol cystudd cymharol fyr. Claddwyd yn mynwent Capelygroes ; a gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. Canon Camber Williams a J. Morris, M.A., Llanwenog ; yn y capel gan y Parch. D. Evans, ac ar lan y bedd gan ei hen gyfaill y Parch. J. Davies. Gadawodd ei briod ac wyth o blant i alaru'n ddwys ar ol priod ffyddlon a thad tyner. Treuliasai ei oes yn ddefnyddiol iawn, a gwasanaethodd ei genhedlaeth yn heddychol a thangnefeddus y tuhwnt i'r cyffredin. Cafodd y fraint o weled ei blant i gyd wedi tyfu i fyny ac mewn amgylchiadau cysurus. Yr oedd yr angladd yn fawr iawn, yn ddangoseg o'i barch yn ei gylch, a chydymdeimlad a'i anwyliaid ar ei ol.

MEHEFIN 1, Mrs. Rachel Davies, Maestroiddyn fawr, Caio, yn 71 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn un ag iddi air da gan bawb o'i chydnabod. Yr oedd ei phriod a saith o blant wedi ei rhagflaenu, a gadawodd chwech eraill ar ol i alaru ar ol mam dyner a da. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Caeronen, yn ymyl ei phriod a'i phlant, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Mr. Thomas, Ffaldybrenin (A.), yn cael ei gyuorthwyo gan Gurad y plwyf ; Lewis Williams ac R. C. Jones.

MEHEFIN 5, Mary Thomas, Castellhywel Arms, Pontshan, Llandyssul, yn 72 oed. Dyma un o gymeriadau mwyaf adnabyddus yr ardal wedi myn'd, un ag oedd yn adnabyddus i gylch helaeth iawn, ac un y siaradai pawb yn barchus o honi. Yr oedd yn herwydd gwendid yn ei chefn yn fethedig er's blynyddau, ac wedi ei chaethiwo i'w haelwyd ac ychydig latheni o gylch y tŷ, er hyny mwynhaodd iechyd gweddol dda bron hyd y diwedd. Cystudd byr oedd ei chystudd, o brydnawn Sadwrn hyd foreu Llun, ac yna ffarweliodd gan adael dau frawd, pump o blant, ŵyrion a pherthynasau ereill i wel'd ei heisiau. Mae yr aelwyd yn wag hebddi, nid i'r teulu yn unig, ond i laweroedd o gyfeillion, canys yr oedd ychydig ymgom a hi yn foethyn yn ngolwg llawer ; yr oedd mor ffraeth a pharod ei hymadroddion, mor llon ei gwên, mor ddiniwed ei hyspryd. Claddwyd yr Iau canlynol yn Capelyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas.

MEHEFIN 8, yn saith wythnos oed, Ieuan, mab bychan i Mr. a Mrs. Jones, Fronwen, Llanarth. Claddwyd y Sadwrn dilynol yn Mhanddefaid, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

MEHEFIN 10, yn 76 oed, Evan Jenkins, Glyn, Cribyn, gynt o Ffynonferedydd, ar ol cystudd byr. Gadawodd i alaru ar ei ol briod, dwy chwaer, a dau frawd, a chylch helaeth o berthynasau agos. Hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i fynwent capel yr Annibynwyr, Dihewyd, y dydd Mercher canlynol gan dyrfa anarferol o luosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Carolan Davies.

MANION AC HANESION.

CRIBYN—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion yn y lle uchod dydd Gwener y 19eg o Fai, pryd y daeth pump o ysgolion yn nghyd—Ciliau, Rhydygwin, Cribyn. Capelybryn a Sychbant Adroddodd pob un o'r ysgolion ranau o'r Ysgrythyr fel arfer, a holwyd gan y gweinidogion lleol.

Cafwyd Cymanfa lewyrchus iawn, y darlleniad o'r penodau yn effeithiol a'r atebion i'r gofyniadau yn barod a gweddol gyffredinol, yr ysgolion mewn nifer i fyny a'r hyn arferent fod.

CAERONEN.—Cynaliodd Ysgolion Sul Alltyplacca, Capelygroes, Brondeifi a Chaeronen eu cymanfa eleni yn y lle olaf, Mai 24ain. Holwyd y gwahanol ysgolion gan y Parchn. John Davies, D. Evans, ac R. C. Jones. Pregethwyd yn yr hwyr gan y Parch. E. O. Jenkins a D. Evans.

DADLENU COFGOLOFN CARNELIAN—Dydd Llungwyn yr oedd beirdd Pontypridd a'r Cylch wedi ymgynull i'r Groeswen—i Facpelah enwogion Cymru—i ddadlenu Cofgolofn y bardd Carnelian. Codwyd hi gan ei gyfeillion a'i edmygwyr. Nid yn aml y mae lleygwr—bydded fardd neu lenor—yn cael cofgolofn i goffa am dano. O hyn allan disgwylir i ardaloedd eraill i ymysgwyd i wneud yr un parch i feirdd a llenorion ymadawedig. Colofn o ithfaen tywyll yw yr un sydd ar fedd Carn. Byr a chynwysfawr yw y cerfiad sydd arni—dim ond cofnodiad o'i enedigaeth a'i farwolaeth, yn nghyd ag englyn o waith Brynfab—

"Uwch anwyl lwch, awen lon
—a gofia
Ei hen gyfaill ffyddlon :
A rhoddai ef fawredd hon
Yng nghalonau englynion.

Cerfiwr y gofadail yw Mr. John Davies, Pentrebach, Pontypridd. Mae yn un o'r colofnau harddaf sydd yn mynwent y Groeswen, ac yn glod i'r cerfiwr medrus, yn ogystal ag i goffadwriaeth Carnelian. Bydd yn dda gan wyr Ceredigion ddeall fod eu cydwladwr yn dyfod i fri yn nglyn a'i alwedigaeth yn ardal Pontypridd.

Y MAE TRAETHAWD GWOBRWYEDIG ein diweddar gyfaill gweithgar y Parch. John Hathren Davies ar "Feirdd Dyfed" yn ymddangos o fis i fis yn "Cymru," cyhoeddiad O. M. Edwards.

Y BEIBL—Wedi'r cwbl fe geir y prawf goreu fod y Beibl yn fwyd da drwy ei fwyta : bydd effaith iachusol y feddyginiaeth pan ddefnyddir ef, yn brawf digonol o'i ddaioni—GENERAL GORDON.

Trysorfa Addysgol Gweinidogion Undodaidd Cymreig

RHODDION YCHWANEGOL.

	£	s.	c.
Casgliad Capelygroes	1	0	0
Casgliad Bwlchyfadfa	1	0	4
Parch. E. O. Jenkins, Llwyn a'r Bwlch ...	0	5	0
Mrs. Thomas, Fadfa	0	2	6
Casgliad Cribyn	0	18	0
Thos. Jonathan, Foelallt, Ciliau Aeron ...	0	5	0
Evan Hughes, Corner Shop, Dihewyd ...	0	2	6
David Daniel, Drewen, Dihewyd	0	1	0

Anfoner pob tanysgrifiadau i'r Trysorydd—MRS. EVANS, Taliesin House, Lampeter ; neu i'r Ysgrifenydd, y PARCH. R. C. JONES, Ogmore House, Lampeter.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gomerian Press, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: *Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR.

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Ffrwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

BARGAIN TIME

Saturday, July 8th,

and daily during the remainder of the month. . . . . .

Ben Evans & Co's

Great

Summer Sale

Is "BARGAIN TIME" at SWANSEA

for everything

for PERSONAL WEAR

or HOUSE FURNISHING.

Every Department throughout the House gives Genuine Reductions in Prices, and this fact, coupled with our well-known High Standard for Quality, which is fully maintained during the half-yearly sales, accounts for their ever-increasing popularity with careful and discriminating buyers.

Ben Evans & Co., Ltd., Swansea.

Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 11. Rhif 8.] AWST, 1911. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.
Cyfarfodydd Blynyddol yn Llwynrhydowen.
Parch. D. Evans.
Undodiaid a'r Pwnc o Berson Crist.
Parch. D. G. Rees.
Ymweliad a Hungary.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.
Y Beibl Cymraeg
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J. M., Blaengwynfi; D. S., Bwlchyffin; J. J., Llundain; J. I. D., Aberdar; Dr. J., Llanybyther; Mrs. J., Pentwyn; J. H. E., C.N. Emlyn; D. M. D., Aberdar; J. G. J., Cwithewydd; J. D., Croesgoch; E. S. E., Caerdydd; J. B., Llwyneinon; D. J., Clydach Vale; Mrs. J., Rhydyfran; Mrs. J., Bettws; J. R., Pontbrenllwyd; Mrs. D. J. T., Cribyn; J. O. L., Llandyssul.

AR WERTH: CYFROLAU O'R YMOFYNYDD

Heb eu rhwymo am y blynyddoedd canlynol:

1859, 1869, 1871, '72, '74, '75, '76, '77, '78, '83, '84, '85, '86, 90, '92, '94, '95, '96, '97, '98, '99, 1900, '01, '02.

Swllt y Gyfrol, a'r cludiad (3c.).

Anfoner at:—Rev. D. G. REES, 25, Grove Rd., Bridgend, Glam.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch ir gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 1od. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. —